



## Cipolwg Llwyddiannus o Chwaraeon a Busnes yng Nghymru

Dechreuodd Engage for Success a chyd-noddwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd brosiect ymchwil i'r cysylltiadau rhwng ymgysylltu ym myd chwaraeon a busnes.

Nod y prosiect blaenllaw tair blynedd hwn, sydd wedi'i gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw gofyn y cwestiwn '**Beth gall arweinwyr busnes ac arweinwyr chwaraeon yng Nghymru ddysgu o'i gilydd i greu a chynnal perfformiad, lles ac ymgysylltiad**'?

Bydd y prosiect yn dod â chwaraeon a busnes Cymru yn agosach at ei gilydd, gan roi cipolwg i i dimau sy'n perfformio'n dda ym mhob maes. Bydd y darn ymchwil arloesol hwn yn creu cyfleoedd i ddysgu o'i gilydd a bydd gan y canfyddiadau oblygiadau i economi Cymru a thu hwnt.

### Cefndir y prosiect

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol ar gyfer y perfformiad gorau posibl mewn amgylcheddau perfformiad uchel fel chwaraeon a busnes. Mae papurau ymchwil academiaidd diweddaraf hefyd wedi nodi effaith arweinyddiaeth ar les cyflogaion. Dyfynnir yn aml y tebygrwydd rhwng arweinwyr llwyddiannus ym myd chwaraeon a busnes, ond hyd nawr mae'r cysylltiadau wedi bod mewn un cyfeiriad yn unig (chwaraeon i fusnes) ac maent fel arfer yn anecdotaidd.

Mae'r gwaith ymchwil yn defnyddio dulliau cymysg wedi'u rhannu yn dri cham.

1. Cyfweliadau ag arweinwyr o fusnes a thimau chwaraeon Cymru sy'n perfformio'n dda
2. Dadansoddiad wedi'i dargedu o arweinyddiaeth a'i ddylanwad ar ymgysylltu, perfformiad a lles
3. Cyfweliadau â'r arweinyddiaeth ehangach i gael eglurhad manwl o ganfyddiadau'r dadansoddiad

### Dyma amserlen o'r hyn sy'n digwydd

#### 2017 i 2018

Eleni, mae'r arweinwyr dethol yn cymryd rhan mewn cyfres o gyfweliadau, gan roi cipolwg i arfer gorau, prosesau, a'r technegau a ddefnyddir i ysgogi perfformiad, lles ac ymgysylltiad ar draws eu sefydliadau.

Mae'r fframwaith ar gyfer y cyfweliadau wedi bod yn seiliedig ar y nodweddion cyffredin a welir mewn sefydliadau sy'n perfformio'n dda (y mae Engage for Success yn eu galw yn [bedwar galluogwr ymgysylltu â chyfloegion](#)). Bydd y canlyniadau yn rhoi meincnod o'r ffactorau ymgysylltu a byddwn yn dangos arfer gorau yng Nghymru.

#### 2018 i 2020

Bydd busnesau a thimau chwaraeon o'r flwyddyn gyntaf yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o astudiaeth achos parhaus:

- Cam 1: Dadansoddiad wedi'i dargedu o arweinyddiaeth a'i ddylanwad ar berfformiad, lles ac ymgysylltu
- Cam 2: Cyfweliadau manwl gyda'r arweinwyr ehangach (rheolwyr, hyfforddwyr, staff cefnogi a chwaraewyr) i ddeall yn llawn y rhesymau y tu ôl i'r rhifau

Os hoffech wybod mwy, ewch i [wefan Grŵp Syniadau a Gweithredu Cymru](#).